# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 6 Rhagfyr 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

# 37(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## Cwestiwn Brys 1

(10 munud)

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith:**

**Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** Yn dilyn penderfyniad y Comisiynydd Traffig i ddirymu trwydded gweithredwr cerbydau gwasanaeth cyhoeddus RJ's o Wem, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau bysiau yng ngogledd-ddwyrain Cymru?

## Cwestiwn Brys 2

(10 munud)

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Ganolfan Feddygol Rhiwabon yn Wrecsam, sydd wedi dod â'i chontract gyda'r GIG i ben ar ôl methu â llenwi dwy swydd wag am feddygon?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Canlyniadau PISA

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Ynni

(30 munud)

## 5 Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarfer Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016

(15 munud)

**NDM6180** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Tachwedd 2016.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016

Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2017-18

(120 munud)

**NDM6179** **Jane Hutt (Bro Morgannwg):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12:

Yn nodi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-2018 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 18 Hydref 2016.

'Cynigion Cyllideb Ddrafft 2017-18'

**Dogfennau Ategol**
Y Gyllideb Ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-2018
Y Pwyllgor Cyllid Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** **Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu pob dim a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu nad yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 yn diwallu anghenion pobl Cymru.

## 7 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2016